



## Pennod Un

### Tasgau grŵp

#### 1. Y Stori

Rhowch y brawddegau hyn yn y drefn gywir:

*Put these sentences in the correct order:*

- Mae hi eisiau mynd â'i bag i'r gwesty.
- Mae Sophia yn rhedeg i orsaf yr heddlu.
- Mae map Sophia yn chwythu i ffwrdd.
- Mae Sophia Reynolds wedi teithio i Gaerdydd i fod yn ecstra mewn ffilm.
- Mae'r fenyw wedi gadael ei bag hi ac wedi mynd â bag Sophia!
- Mae hi'n rhedeg ar ôl y map.
- Mae hi'n cyrraedd am wyth o'r gloch.
- Mae Sophia yn stopio i helpu menyw sy'n chwilio am Stryd y Banc.

#### 2. Cywir/Anghywir

Ydy'r gosodiadau hyn yn gywir neu'n anghywir?

*Are these statements true or false?*

		Cywir	Anghywir
a	Mae Sophia yn byw yng Nghaerdydd.		
b	Seren y ffilm yw Fabio Facelli.		
c	Mae gwaith Sophia yn dechrau am wyth o'r gloch.		
ch	Mae Sophia yn rhedeg ar ôl ei map yn y gwynt.		
d	Mae map Sophia yn chwythu i mewn i'r afon.		
dd	Mae Sophia a menyw arall yn cymysgu eu bagiau.		



Cyfres Amdani: Am Ddiwrnod!- Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

e	Mae Sophia yn mynd i'r gwesty i esbonio am y bag.		
---	---	--	--

## Tasgau i unigolion

### 1. Geirfa

Cysylltwch y geiriau Cymraeg gyda'r geiriau Saesneg cywir:

*Connect the Welsh words with their correct English meanings:*

<b>wythnos</b>	<i>hour</i>
<b>chwerthin</b>	<i>street</i>
<b>angen</b>	<i>to laugh</i>
<b>awr</b>	<i>station</i>
<b>gwesty</b>	<i>to run</i>
<b>stryd</b>	<i>week</i>
<b>gofyn</b>	<i>hotel</i>
<b>rhedeg</b>	<i>to shout</i>
<b>gweiddi</b>	<i>need</i>
<b>gorsaf</b>	<i>to ask</i>

### 2. Cwestiynau

Atebwch y cwestiynau yn Gymraeg:

*Answer the questions in Welsh:*

- i) Pam mae Sophia yn mynd i Gaerdydd?
- ii) Am faint o amser mae hi'n mynd?
- iii) Beth mae angen i Sophia wneud cyn mynd i'r gwaith?
- iv) Pam mae menyw yn stopio hi ar y stryd?
- v) Ble mae'r map yn mynd?
- vi) Pam mae Sophia yn mynd i orsaf yr heddlu?